**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PWYLLGOR ARCHWILIO**

Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Archwilio Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 1 Mehefin 2015 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Llanelwy. Dechreuodd y cyfarfod am 2 y prynhawn.

PRESENNOL

Cynghorwyr:

| | |
|---|---|
| J R Skelland (Cadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| A Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| J G Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| D Macrae | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| M Reece | Cyngor Sir y Fflint |
| W P Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| D Simmons | Cyngor Sir Ddinbych |
| D Taylor | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| O Thomas | Cyngor Sir y Fflint |
| R Wright | Cyngor Gwynedd |

HEFYD YN BRESENNOL:

D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); G Owens (Dirprwy Glerc); S Forrest (Cyfrifydd, Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); M Halstead a K V Williams (Archwilio, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); J Brown (Rheolwr Cyllid); S Barry (Swyddfa Archwilio Cymru); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau).

YMDDIHEURIADAU:

Cynghorwyr:

| | |
|---|---|
| A I Dunbar | Cyngor Sir y Fflint |
| D Miles | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| G G Williams | Cyngor Gwynedd |

1 DATGAN BUDDIANNAU

1.1 Dim.

2 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 26 IONAWR 2015

2.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2015 eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

2.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gofnod cywir.**

3 MATERION YN CODI

3.1 (3.1) Bwrdd Pensiwn Lleol – Nodwyd bod y cyfarfod cyntaf wedi cael ei gynnal ar 20 Ebrill 2015 a bod y Cyng. W T Owen wedi cael ei ethol yn Gadeirydd y Bwrdd am ddwy flynedd.

3.2 (4.3) Cytundebau 'Repo' – cadarnhaodd Ms Forrest fod CBS Conwy wedi cymeradwyo defnyddio Repos ond nad ydynt wedi cael eu defnyddio eto. Darperir diweddariad pellach unwaith y cânt eu defnyddio.

4 FFI ARCHWILIO 2014-15

4.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i roi gwybod i'r aelodau am ffi Swyddfa Archwilio Cymru am y gwaith a wnaed ar raglen archwilio perfformiad 2014-15. Cadarnhaodd Steve Barry o Swyddfa Archwilio Cymru fod y gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 2014-15 wedi cael ei gwblhau heblaw am yr adroddiad gwella blynyddol, a oedd ar ffurf drafft ar y pryd.

4.2 **PENDEFYNWYD nodi'r £15,292 o ffi yn gysylltiedig â rhaglen archwilio perfformiad Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2014-15.**

5 Y CYNLLUN ARCHWILIO A'R FFIOEDD 2015-16

5.1 Yna, cyflwynodd Mr Barry gynllun archwilio drafft Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer yr Awdurdod yn 2015-16. Roedd y cynllun yn nodi'r gwaith perfformiad i'w wneud, gan gynnwys archwiliad gwella ac asesiad, gwaith dilynol ar yr adolygiad o ansawdd data, a'r astudiaeth 'Cyflawni â Llai' a gwblhawyd yn 2014-15. £49,636 yw cyfanswm y ffi arfaethedig am y gwaith archwilio ariannol ac archwilio perfformiad.

5.3 I ateb cwestiwn gan yr aelodau ynglŷn â ffioedd, cadarnhawyd bod cynllun ffioedd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n cynnwys ffi'r staff yn ôl yr awr. Cadarnhawyd nad yw'n arferiad cyhoeddi anfoneb fanwl, wedi ei heitemeiddio, am y gwaith a wnaed.

5.4 O ran rhannu arferion gorau a nodwyd gan yr archwilwyr, cadarnhawyd bod hyn yn cael ei wneud yn anffurfiol drwy drafod gyda'r swyddogion a hefyd mae adran ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru yn nodi arferion da.

5.5 **PENDERFYNWYD nodi cynllun archwilio Swyddfa Archwilio Cymru a'r ffioedd ar gyfer 2015-16.**

6 DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

6.1 Cafodd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ei gyflwyno i'r aelodau i roi sylwadau arno, cyn iddo gael ei gyflwyno gyda'r set gyflawn o gyfrifon ym Medi 2015. Mae'r Datganiad yn ffordd o adrodd yn gyhoeddus i ba raddau y mae Awdurdod yn cydymffurfio â'i God Llywodraethu Corfforaethol ei hun.

6.2 Aeth y DBST â'r aelodau drwy'r Datganiad, ac esbonio'r gwaith a oedd yn cael ei wneud dan bob egwyddor. Gwnaed argymhellion ar gyfer gwella yn 2013-14 a chafodd yr aelodau wybod am y cynnydd a wnaed dan bob argymhelliad yn ystod 2014-15. Mae camau gweithredu newydd wedi cael eu cynllunio ar gyfer 2015-16, gan gynnwys sefydlu strategaeth cynaliadwyedd ac amgylcheddol, a oedd wedi cael ei gohirio ers 2014-15 gan aros dyfodiad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Dyma waith arall sydd i gael ei wneud: gwella gwybodaeth am safonau uchel o ymddygiad ymhlith y staff, a gwella diogelu data a chydymffurfio â Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio.

6.3 **PENDERFYNWYD argymell y Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2014-15, i'w anfon ymlaen i'w gyflwyno i'r Awdurdod.**

7 PERFFORMIAD ARIANNOL 2014-15

7.1 Cyflwynodd Sandra Forrest yr adroddiad, ynghyd â chyflwyniad manwl o berfformiad ariannol yr Awdurdod yn 2014-15. Roedd y Pwyllgor Archwilio wedi cael y dasg o sicrhau bod craffu effeithiol yn digwydd ar adroddiadau ariannol, a gwneud argymhellion i'r Awdurdod Tân ac Achub yn seiliedig ar unrhyw ganfyddiadau.

7.2 Atgoffwyd yr aelodau fod y gyllideb ar gyfer 2014-15 wedi cael ei chynllunio yn unol â'r argymhellion yn y Cynllun Gwella, sef darparu 30,000 o archwiliadau diogelwch tân yn y cartref, gan gynnal yr un lefel o ddarpariaeth a darparu'r gofal tân ac achub gorau posib yng Ngogledd Cymru gan ddefnyddio opsiynau gwahanol i'r system RDS. Cadarnhaodd Ms Forrest fod yr amcanion hyn wedi cael eu cyflawni gan aros o fewn y gyllideb.

7.3 Rhoddodd Ms Forrest drosolwg i'r aelodau o'r prif feysydd lle bu amrywiadau o'i gymharu â'r gyllideb. Cyfleuwyd i'r Aelodau beth oedd y sefyllfa o ran lefel y cronfeydd wrth gefn a'r darpariaethau a oedd gan yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2015. Y tanwariant am y flwyddyn cyn trosglwyddo i ac o'r cronfeydd wrth gefn oedd £1,058,553. Gofynnwyd bod yr Aelodau'n argymell i'r ATA fod y tanwariant yn cael ei ddefnyddio ar gyfer 'Ariannu Gwariant Cyfalaf yn Uniongyrchol' a throsglwyddo elfen i'r cronfeydd wrth gefn i ymorol am gostau trosglwyddo'r prosiect radio ESMCP a'r diffyg yn y grant ar gyfer archwiliadau diogelwch tân yn y cartref ar gyfer 2015-16. Roedd y trosglwyddiadau hyn yn cyd-fynd â'r defnydd a gymeradwywyd eisoes o'r tanwariant a ragwelid.

7.4 Nodwyd bod arian grant ar gyfer 2014/15 wedi cael ei ddyfarnu i brosiectau penodol megis archwiliadau diogelwch tân yn y cartref, y Ffenics a Lleihau Llosgi Bwriadol. Fodd bynnag, yn 2015/16 bydd nifer y prosiectau sy'n cael arian grant yn gostwng yn sylweddol a bydd angen i'r Awdurdod gymryd hynny i ystyriaeth mewn trafodaethau ynghylch cynllunio'r gyllideb ar gyfer y dyfodol.

7.5 Roedd y gyllideb gyfalaf, a osodwyd ar £8.575 miliwn yn wreiddiol, wedi cael ei newid am i fyny ar ddechrau'r flwyddyn, i £15.28 miliwn er mwyn cymryd ystyriaeth o'r arian a gariwyd drosodd o'r flwyddyn flaenorol, y rhan fwyaf ohono ar gyfer prosiectau gorsafoedd tân Wrecsam a Thywyn. Oherwydd llithriant ar brosiectau Wrecsam, Tywyn a Glannau Dyfrdwy, £6.654 miliwn oedd y gwariant gwirioneddol am y flwyddyn. Roedd y rhaglen yn cael ei hariannu gan fwyaf gan fenthyciadau ac arian a fenthycir yn fewnol, ond roedd yr arian arall a ddefnyddid yn dod o'r gronfa gyfalaf, cyfraniadau allanol a derbyniadau cyfalaf.

7.6 Nodwyd y canlynol gan yr Aelodau hefyd:

- mae cyllideb y staff cefnogol yn cynnwys ymarferwyr diogelwch cymunedol a staff diogelwch tân deddfwriaethol
- bydd gorsaf dân Nefyn yn cael ei hagor yn swyddogol ar 9 Mehefin 2015
- mae tir wedi ei brynu ar gyfer gorsaf dân newydd Tywyn
- mae goraf Wrecsam yn dal ar y targed i gael ei chwblhau erbyn Ionawr 2016
- er y bu gostyngiad yn nifer y digwyddiadau tân, bu cynnydd yn y galwadau am wasanaethau arbennig megis digwyddiadau llifogydd a gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd. O ran gwrthdrawiadau, da yw nodi nad yw'r Gwasanaeth, oherwydd gwell cydweithio gyda'r gwasanaethau brys eraill, ond yn cael ei alw at wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd pan fo angen y Gwasanaeth ac yn gallu bod o gymorth, yn hytrach nag yn cael ei alw allan fel mater o drefn.

7.7 **PENDERFYNWYD argymell i'r Awdurdod Tân ac Achub:-**

**(i) bod £534,048 o'r tanwariant yn cael ei ddefnyddio ar gyfer ariannu gwariant cyfalaf yn uniongyrchol;**
**(ii) bod y tanwariant sy'n weddill, sef £524,506, yn cael ei drosglwyddo i'r cronfeydd a glustnodwyd;**
**(iii) trosglwyddo o'r gronfa gyfalaf fel y nodir isod:**

| | |
|---|---|
| Ariannu Gwariant Cyfalaf yn Uniongyrchol -<br>Cerbydau Gwledig y system amser cyflawn (cymeradwywyd gan yr Awdurdod Tân Medi 15)<br>Prynu prydlesau allan a Chyfarpar (cymeradwywyd gan yr Awdurdod Tân Mawrth 15) | £300,000<br>£234,048 |
| Cyfraniad i gronfeydd-<br>Costau trosglwyddo Radio (cymeradwywyd gan yr Awd. Tân Rhag. 15)<br>Ymorol am y gostyngiad yn y Grant archwiliadau diogelwch tân yn y cartref (newydd) | £300,000<br>£224,506 |
| **Cyfanswm y Tanwariant** | **£1,058,554** |
| Cronfa Gyfalaf i gefnogi ariannu'r rhaglen gyfalaf | -£700,000 |

8 GWEITHGARWCH RHEOLI'R TRYSORLYS A'R GWIR DDANGOSYDDION DARBODUS YN 2014-2015

8.1 Mae adroddiad blynyddol y trysorlys yn un o ofynion gweithdrefnau adrodd yr Awdurdod. Mae'n nodi gweithgarwch y trysorlys a'r gwir ddangosyddion darbodus yn 2014-2015 yn unol â gofynion y Cod Darbodus. Tasg y Pwyllgor Archwilio oedd sicrhau bod craffu effeithiol yn digwydd ar strategaeth rheoli'r trysorlys a'r polisïau, a gwneud argymhellion i'r Awdurdod Tân ac Achub yn seiliedig ar eu canfyddiadau.

8.2 Rhoddodd Sandra Forrest gyflwyniad manwl ar Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Economi, Gweithgarwch Benthyca, Gweithgarwch Buddsoddi a Dangosyddion Darbodus.

8.3 Nodwyd bod yr Awdurdod wedi cydymffurfio â'r holl ofynion statudol a rheoleiddiol sy'n cyfyngu ar lefel y risg sy'n gysylltiedig â'i weithgareddau rheoli'r trysorlys. O ran y buddsoddiadau a wnaed, trefn y flaenoriaeth fu sicrwydd, yna hylifedd, yna arenillion. Mae gwariant cyfalaf yr Awdurdod yn ddarbodus, fforddiadwy a chynaliadwy, fel y dengys y dangosyddion perfformiad a luniwyd a'r costau ariannu cyfalaf.

8.4 **PENDERFYNWYD argymell i'r Awdurdod Tân ac Achub fod gwir ddangosyddion darbodus 2014-2015 yn cael eu cymeradwyo.**

Ar yr adeg hon, gadawodd y Cynghorwyr A Evans, M Reece a P Shotton y cyfarfod.

9 DATGANIAD SICRWYDD BLYNYDDOL ARCHWILIO MEWNOL 2014/15

9.1 Cyflwynwyd yr adroddiad fel rhan o ofyniad blynyddol yr Awdurdod i gynnal adolygiad o effeithiolrwydd ei system rheolaeth fewnol.

9.2 Cadarnhawyd bod Pennaeth Archwilio Mewnol o'r farn fod gan yr Awdurdod broses reoli ddigonol ac effeithiol i reoli ei waith yn cyflawni amcanion yr Awdurdod rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2015. Caiff y farn gyffredinol ei defnyddio wrth baratoi'r datganiad llywodraethu blynyddol.

9.3 **PENDERFYNWYD derbyn y datganiad o sicrwydd blynyddol yr archwilio mewnol, a'i ddefnyddio i gyfrannu at gynnwys tystiolaeth datganiad llywodraethu blynyddol.**

10 CRYNODEB O WEITHGARWCH ARCHWILIO MEWNOL 2014/15 AC ASESIAD O ANGHENION A CHYNLLUN ARCHWILIO DRAFFT AR GYFER 2015/16

10.1 Cyflwynodd Keith Williams o Archwilio Mewnol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yr adroddiad a oedd yn rhoi crynodeb o'r gwaith archwilio mewnol a wnaed yn 2014/15 ac i ofyn am gymeradwyaeth i'r Asesiad o Anghenion Archwilio Mewnol a'r Cynllun Archwilio Mewnol Drafft 2015/16.

10.2 Aeth Keith Williams â'r Aelodau drwy'r adroddiad, gan esbonio'r gwaith a wnaed yn ystod 2014/15 ac esbonio y bydd archwiliad dilynol ar lywodraethu corfforaethol yn cael ei gynnal fis Gorffennaf 2015. Roedd yr holl waith a gynlluniwyd wedi cael ei gynnal ac eithrio hyfforddi a datblygu staff, oherwydd cynhaliwyd archwiliad o Orsaf Dân Gymunedol y Rhyl yn lle hynny. Mae'r gwaith sydd yn yr arfaeth ar gyfer 2015/16 yn cynnwys absenoldeb salwch, y gyflogres, pensiynau – ansawdd data, a'r fenter twyll genedlaethol, a wneir mewn partneriaeth â Swyddfa Archwilio Cymru.

10.3 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi'r crynodeb o weithgarwch archwilio mewnol yn 2014/15;a**

**(ii) cymeradwyo'r asesiad o anghenion a'r cynllun archwilio mewnol drafft ar gyfer 2015/16.**

11 SAFONAU FFITRWYDD AR GYFR STAFF GWEITHREDOL

11.1 Yn y cyfarfod diwethaf roedd yr aelodau wedi adolygu sefydlu bwrdd pensiwn lleol, ac roedd hyn wedi arwain at gwestiynau ynglŷn â'r cysylltiad rhwng yr anghydfod pensiynau cenedlaethol ynghylch pensiynau, a ffitrwydd diffoddwyr tân.

11.2 Rhoddodd y PSTC Simmons gyflwyniad i godi ymwybyddiaeth am y materion yn ymwneud ag iechyd, lles ac yn arbennig y lefelau ffitrwydd sy'n ofynnol ar gyfer gwaith diffodd tanau. Nodwyd bod yn rhaid i ddiffoddwr tân fod yn iach ac yn ffit er mwyn cyflawni'r rôl gan ei bod yn golygu amrywiaeth o dasgau sy'n gallu bod yn galed yn gorfforol ac yn feddyliol ac sy'n aml yn amhosib i'w ragweld, o ran natur a faint y bydd yn para. O safbwynt cyflogwr neu sefydliad, mae angen i'r Gwasanaeth fod yn hyderus ei fod yn gallu darparu ymateb gweithredol sy'n ddigonol er mwyn dod â digwyddiad i ben yn ddiogel.

11.3 Cafodd yr aelodau wybod bod 62% o staff yr ochr weithredol wedi sefyll y prawf ffitrwydd rhwng mis Ionawr a mis Mehefin, a dim ond pedwar diffoddwyr tân oedd wedi methu'r prawf yn wreiddiol ond, roedd y pedwar wedi pasio'r prawf chwe wythnos yn ddiweddarach ar ôl cael cymorth a chefnogaeth i wella eu hiechyd a'u ffitrwydd. Mae'r Gwasanaeth yn cyflogi Ymgynghorydd Ffitrwydd Corfforol, sy'n sicrhau bod yr holl brofion a'r cyfarpar ffitrwydd ar gael ar bob gorsaf.

11.4 **PENDERFYNWYD diolch i'r PSTC Simmons am y cyflwyniad a nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**